

# Cofnodion



## Pwyllgor Rheoli Trosolwg a Chraffu

---

Dyddiad: 24 Mehefin 2022

Amser: 10am

Yn bresennol: Y Cyngorwyr P Hourahine (Cadeirydd), M Al-Nuaimi, M Evans, L James, B Davies a Horton

Yn bresennol: Gareth Price (Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio), Rhys Cornwall (Cyfarwyddwr Strategol), Janice Dent (Rheolwr Polisi a Phartneriaeth), Hywel Jones (Swyddog y Gymraeg),

Neil Barnett (Cyngorydd Craffu), Anne Jenkins (Arweinydd y Tîm Llywodraethu), Pamela Tasker (Swyddog Llywodraethu), Emily Mayger (Swyddog Llywodraethu)

Ymddiheuriadau: Cyngorwyr C Baker-Westhead a P Bright

---

### 1. Ymddiheuriadau

Cyngorwyr P Bright a C Baker-Westhead.

### 2. Datganiadau o Fuddiant

Dim

### 3. Cofnodion y cyfarfod blaenorol 21 Ionawr 2022

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 21 Ionawr 2022 fel cofnod gwir a chywir

### 4. Adroddiad Monitro Blynyddol y Gymraeg 2021-22

#### Gwahoddedigion:

Rhys Cornwall (Cyfarwyddwr Strategol – Canolfan Trawsffurfio a Chorfforaethol)  
Janice Dent (Rheolwr Polisi a Phartneriaeth)  
Hywel Jones (Swyddog y Gymraeg)

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Strategol yr adroddiad.

Atgoffodd y Cyfarwyddwr Strategol y Pwyllgor fod yr adroddiad hwn yn edrych yn ôl ar y flwyddyn ariannol 2021-22 pan oedd cyfyngiadau Covid-19 yn dal i fod ar waith.

Amlygodd y Cyfarwyddwr Strategol mai un o'r pethau allweddol i Gyngor Dinas Casnewydd oedd recriwtio gweithwyr sy'n siarad Cymraeg i ddarparu gwasanaethau.

#### Cwestiynau:

Gofynnodd aelod o'r pwyllgor pa ganran o'r boblogaeth fyddai angen iddi siarad Cymraeg yng Nghasnewydd mewn perthynas â'r nod ar gyfer 2050.

- Amlygodd y Cyfarwyddwr Strategol ddau fesur ar gyfer hyn - y cyntaf oedd data'r cyfrifiad nad oedd dadansoddiad cyflawn ar ei gyfer a'r ail oedd nifer y disgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg, a oedd yn sail i'r gwaith cynllunio dros y 5 mlynedd nesaf.
- Cadarnhaodd Swyddog y Gymraeg fod y niferoedd yn seiliedig i raddau helaeth ar ddata cyfrifiad 2011. Hysbysodd Swyddog y Gymraeg y pwyllgor y byddai'r adroddiad monitro blynyddol yn gweithio'n agos gyda'r Cynllun Strategol. Hysbysodd Swyddog y Gymraeg y pwyllgor y byddai angen monitro addysg cyfrwng Cymraeg er mwyn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a bod ffocws ar ddatblygu'r Gymraeg mewn cymunedau er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Ychwanegodd Swyddog y Gymraeg fod hyfforddiant hefyd ar waith o fewn Cyngor Dinas Casnewydd i gynyddu nifer y staff sy'n siarad Cymraeg.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Strategol nad oedd targed canran penodol yng Nghasnewydd

- am nad oedd Cyngor Dinas Casnewydd mewn sefyllfa i wneud hyn. Nododd yr aelod o'r pwyllgor fod yr adroddiad yn dderbyniol ar gyfer eleni ond teimlai fod targed 2050 yn uchelgeisiol. Awgrymodd yr aelod o'r pwyllgor y byddai'n ddefnyddiol cynnwys sylwadau ar
- y targed hwn yn yr adroddiad blynyddol ac y byddai hefyd yn ddefnyddiol i Gyngor Dinas Casnewydd ddarparu canrannau ar gyfer nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghasnewydd.
- Cadarnhaodd y Rheolwr Polisi a Phartneriaeth y byddai hyn yn cael ei ystyried ac y byddai'n cael ei gynnwys yn yr adroddiad ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Gofynnodd aelod o'r pwyllgor beth oedd y targed ar gyfer lefel rhuglder yn y Gymraeg.

- Cyfeiriodd Swyddog y Gymraeg y pwyllgor at y dadansoddiad o ruglder yn nhablau'r adroddiad. Hysbysodd Swyddog y Gymraeg y pwyllgor y byddai ffocws ar greu fframwaith i fesur gallu ieithyddol yn y Gymraeg i safoni Cyngor Dinas Casnewydd ymhlith cyrff cyhoeddus eraill.
- Tynnodd y Rheolwr Polisi a Phartneriaeth sylw at gyflawniadau allweddol 2021-22 a theimlai fod llawer o gynnydd wedi'i wneud er gwaethaf heriau'r pandemig.
- Amlygodd Swyddog y Gymraeg waith Addysg wrth godi ymwybyddiaeth. Amlygodd Swyddog y Gymraeg y Grantiau Cymraeg yn y Gymuned a'u heffaith ar grwpiau
- cymunedol a'r defnydd o'r Gymraeg. Amlygodd Swyddog y Gymraeg ymgyrch Many Faces of Welshness.
- Amlygodd Swyddog y Gymraeg fod y cynllun strategol, y cynllun hyrwyddo, a'r polisi hyrwyddo 5 mlynedd ar gyfer Cymraeg Mewn Addysg yn dangos y gwaith sy'n mynd rhagddo a rhoddodd sicrwydd i'r pwyllgor y byddant yn adrodd arnynt.
- Amlygodd Swyddog y Gymraeg y gwaith sy'n digwydd gyda grwpiau ffoaduriaid, grwpiau mudol a grwpiau lleiafrifoedd ethnig i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn cymunedau lleiafrifol.
- Nododd Swyddog y Gymraeg eu bod yn adeiladu ar bartneriaethau creadigol.

Canmolodd aelod o'r pwyllgor y Cynghorydd Evans a ddywedodd fod y fideo Gymraeg a ddosbarthwyd i'r pwyllgor wedi gwneud argraff arno ond bod ganddo rai problemau gyda'i chynnwys.

Amlygodd aelod o'r pwyllgor fod nifer y cwynion yn rhagorol.

Amlygodd aelod o'r pwyllgor nad oedd unrhyw un wedi dewis dilyn hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg ac y byddai'n ddefnyddiol safoni cyflwyniad y data drwy'r adroddiad.

Roedd un aelod o'r pwyllgor o'r farn y byddai'n ddefnyddiol gweld crynodeb o sylwadau preswylwyr mewn perthynas ag arolygon.

Gofynnodd aelod o'r pwyllgor sut yr oedd gwariant grant yn cael ei fonitro.

- Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol fod y gwaith o fonitro gwariant grant yn bwysig i sicrhau ei fod yn cael yr effaith gywir a bod y data cywir yn cael ei gasglu. Dywedodd y gellid cyfeirio unrhyw sylwadau penodol yn ymwneud â'r fideo ato ef a'r Swyddog Monitro er mwyn ymchwilio iddynt.
- Rhoddodd Swyddog y Gymraeg sicrwydd i'r pwyllgor fod cyfarwyddyd grant, a bod ceisiadau grant yn cael eu hasesu gan banel. Rhoddodd Swyddog y Gymraeg sicrwydd i'r pwyllgor fod prosesau monitro ac olrhain ar waith lle y byddai derbynebau a manylion gwariant yn cael eu darparu gan y sawl sy'n derbyn grantiau.
- Dywedodd Swyddog y Gymraeg fod y cyllid grant yn cael ei ddefnyddio ar gyfer rhent gan nad oedd gan y derbynwyr leoliad eu hunain felly ni fyddent wedi gallu cynnal y digwyddiad fel arall.
- Nododd Swyddog y Gymraeg fod yr atebion i'r arolwg yn cael eu casglu fel rhan o'r strategaeth 5 mlynedd ac felly wedi'u cynnwys yn yr Atodiad, ond cymerodd sylwadau'r pwyllgor i ystyriaeth.

Teimlai aelod o'r pwyllgor nad oedd yr adroddiad yn rhoi digon o fanylion na data ynghylch cyflawniadau penodol a amlygwyd yn yr adroddiad.

Nododd aelod o'r pwyllgor fod gormod o leoedd meithrin cyfrwng Cymraeg gwag a theimlai y dylid ymchwilio i hyn.

- Rhoddodd y Cyfarwyddwr Strategol sicrwydd i'r pwyllgor y byddai mwy o fanylion am gyflawniadau allweddol yn cael eu hychwanegu at yr adroddiad.
- Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol y byddai'n rhaid codi'r pwynt ynghylch gormod o leoliadau meithrin cyfrwng Cymraeg gwag gyda'r Prif Swyddog Addysg er mwyn cael ei sylwadau.
- Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol y byddai ef a'r Rheolwr Polisi a Phartneriaeth yn ceisio ymgorffori gwaith y Swyddog Hyrwyddo yn yr adroddiad hwn ac mewn adroddiadau dilynol.

## **5. Casgliadau adroddiadau'r pwyllgor**

Cytunodd y pwyllgor ei bod yn bwysig monitro canlyniadau'r grantiau a ddarperir i wahanol sefydliadau.

Cytunodd y pwyllgor y byddai'n fuddiol cael crynodeb gweithredol o'r ymatebion i unrhyw arolygon a grybwyllwyd.

Teimlai'r pwyllgor fod angen data a manylion mwy penodol i gefnogi cyflawniadau allweddol yn yr adroddiad.

Gofynnodd y pwyllgor am sylw gan y Prif Swyddog Addysg ynghylch niferoedd gormodol y lleoedd gwag mewn meithrinfeydd cyfrwng Cymraeg.

Cytunodd y pwyllgor fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o'r hyn a ddigwyddodd dros y flwyddyn ddiwethaf.

Cytunodd y pwyllgor fod yr Adroddiad Blynyddol yn amlygu'r ymrwymiad parhaus i'r Gymraeg.

Cytunodd y pwyllgor y dylid cyflwyno'r sylwadau a'r argymhellion a wnaed i'r Cabinet.

## **6. Adroddiad yr Ymgynghorydd Craffu**

Camau a dderbyniwyd

Rhoddodd yr Ymgynghorydd Craffu sicrwydd i'r Pwyllgor y byddai gofyn am sylwadau gan y Prif Swyddog Addysg ynghylch niferoedd gormodol y lleoedd gwag mewn meithrinfeydd cyfrwng Cymraeg.

Dywedodd yr Ymgynghorydd Craffu wrth y pwyllgor y byddai'r Adroddiad Strategaeth Gwasanaethau Digidol ar yr agenda ar gyfer cyfarfod nesaf y pwyllgor.

Dywedodd yr Ymgynghorydd Craffu wrth y pwyllgor y byddai'r Blaengynllun Gwaith Blynyddol Drafft yn cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor.

## **7. Dyddiad y cyfarfod nesaf fydd**

29 Gorffennaf 2022 am 10am.